# Nodyn o'r cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru – cyfarfod 71 |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 15 Mawrth 2022 |
| **Amser y cyfarfod:** | 10:30 – 13:00 |
| **Yn bresennol:** | Geraint Davies (Cadeirydd), Ruth Rourke (IPROW, Dirprwy Gadeirydd), Rosie Plummer (aelod o Fwrdd CNC), Elfyn Jones (BMC/WEL), Mark Weston (BHS), John Cuthbertson (Disabled Ramblers), Rachel Lewis-Davies (NFU), Kate Ashbrook (OSS), Phil Stone (CW), Charles de Winton (CLA), Rachel Evans (CA), Gwenda Owen (Cycling UK), Ian Mabberley (LAFs), David Evans (Ymddiriedolaeth Cwm Elan), Bernard Griffiths (FUW), James Nevitt (Defence Estates), Rebecca Brough (Ramblers Cymru), Anthony Richards a Peter Rutherford (Parciau Cenedlaethol Cymru), Steve Rayner (WATO), Sarah Smith (LIC), Carys Drew a Naomi Williams (Ysgrifenyddiaeth CNC), Russell De'ath (CNC), Craig Grimes (Experience Community) Huw Irranca-Davies AS, Bill Purvis (CNC), Juliet Michael (CNC), Jont Bulbeck (CNC), Hefin (Cyfieithydd), |
| **Ymddiheuriadau:** | Chris Mills (Afonydd Cymru), Neil Buffery (British Driving Society), Jonathan Hughes (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Eni Hansen-Magnusson (Sustrans) |
| **Arsylwyr** | Helen Donnan (BHS), Eben Muse (BMC), Kieran Foster (Cycling UK), Paula Brunt (Disabled Ramblers), David Medcalf (Fforwm Mynediad Lleol Arfon Dwyfor), Beverley Penney (OSS), George Allingham (Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro), Rachel Parry (CNC), Eifion Jones (Cyngor Ceredigion), Corby Elford, Alison Roberts (CNC), Quentin Grimley (CNC), Sarah Tindal (CNC), Aled Davies (CNC), Dave Maccallum (CNC), Owen Gruffudd (CNC) |

| **Rhif Eitem:** | **Eitem** |
|---|---|

1.

## Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i'r 71ain cyfarfod. Nodwyd yr ymddiheuriadau.

Rhoddodd dau sefydliad wybod am newidiadau o ran eu cynrychiolwyr. Eben Muse fydd cynrychiolydd newydd Cyngor Mynydda Prydain, gan fod Elfyn Jones yn ymddeol. Diolchodd y Cadeirydd i Elfyn am ei gyfraniadau dros y blynyddoedd, a chroesawodd Eben. Nododd Elfyn ei fod wedi mwynhau'r trafodaethau a bod bodolaeth Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru yn bwysig ac wedi helpu i ddatrys problemau a fyddai'n bodoli fel arall, a diolchodd i'r rhai yr oedd wedi gweithio gyda nhw. Byddai Helen Donnan yn cymryd yr awenau fel prif gynrychiolydd Cymdeithas Ceffylau Prydain; croesawodd y Cadeirydd Helen a diolchodd i Mark Weston am ei holl gyfraniadau at y Fforwm.

Atgoffwyd y rhai a oedd yn bresennol o drefniadau'r cyfarfod ar-lein o ran cymryd rhan yn y cyfarfod, ac roedd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd  ar gael drwy gynhadledd sain ar wahân. Croesawyd yr arsylwyr, a chawsant eu hatgoffa i arsylwi yn hytrach na chymryd rhan yn y cyfarfod. Roedd y cyfarfod yn cael ei recordio at ddiben crynodeb y cyfarfod, ac yna byddai'n cael ei ddileu. Nodyn cryno yw cofnod y cyfarfod, yn hytrach na chofnod gair-am-air.

2.

## Camau Gweithredu a Materion sy'n Codi

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol drwy e-bost. Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol yn y cyfarfod:

**Cam gweithredu 69.6: Gwahoddiad i'r Gweinidog ymuno â'r fforwm ar adeg briodol yn y dyfodol.**

Cynigiodd Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, gyfarfod rhithwir gyda'r Cadeirydd, a threfnwyd y cyfarfod hwn ar gyfer 23 Mawrth 2022. *Nodyn ar ôl y cyfarfod: oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd, bu'n rhaid i'r Dirprwy Weinidog ganslo'r cyfarfod hwn a bydd ysgrifennydd ei ddyddiadur yn ail-drefnu.*

**Cam gweithredu 70.1: Gofyn am ragor o fanylion am waith cangen ddŵr Llywodraeth Cymru ar ddynodi dyfroedd mewndirol ar gyfer hamdden.**

Mae'r prif sbardun polisi i ddynodi dyfroedd ar gyfer hamdden wedi'i egluro. Prif amcan y Gweinidog yw gwella ansawdd dŵr, a dyma pam mae cysylltiad agos rhwng yr ymrwymiad a gwella monitro ansawdd dŵr hefyd. Y nod yw annog cymunedau lleol i ymddiddori yn iechyd afonydd Cymru a chael cefnogaeth y cyhoedd i fynd i'r afael â'r gwahanol ffynonellau llygredd dŵr. Ystyrir bod manteision ychwanegol, megis nodau lles a mwy o dwristiaeth, yn fonws, er eu bod yn bwysig hefyd.

**Pwyntiau trafod:**

- Bod angen mwy o eglurder ynghylch bwriadau'r Gweinidog o ran mynediad i ddŵr a'r manteision a geisir ac a oes cysylltiad rhwng gwaith y Gangen Ddŵr a mynediad.

- Ymatebodd y Cadeirydd fod hyn yn rhywbeth y byddai'n gallu ei drafod pan fyddai'n cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog ac y byddai'n adrodd yn ôl i'r Fforwm drwy e-bost cyn mis Ebrill.

**Cam gweithredu 70.2:** Keith Watts i gadarnhau statws deddfwriaeth mynediad mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yng Nghymru.

Cafwyd ymateb gan dîm Keith Watts: Bydd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) yn seiliedig i ddechrau ar safonau trawsgydymffurfio dilysadwy a gefnogir gan ddeddfwriaeth ddomestig. Mae sefyllfa deddfwriaeth mynediad wedi'i nodi ac mae'n faes y bydd angen ei ystyried, yn enwedig sut y gellir cynnwys mynediad mewn SGC yn y dyfodol. Bydd y tîm diwygio rheoleiddio'n cynnal trafodaethau gyda meysydd polisi ynghylch cynigion y SGC a'u cwmpas a fydd yn destun ymgynghoriad.

3.

## Natur a Ni: Sgwrs genedlaethol am ddyfodol amgylchedd naturiol Cymru

Rhannodd Russell De'ath, CNC, wybodaeth am "sgwrs genedlaethol" Natur a Ni ar ddyfodol yr amgylchedd naturiol sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd i gael cymaint o bobl â phosibl i ymgysylltu a chymryd rhan ac i sicrhau bod ffocws parhaus ar yr argyfwng natur.

Mae'r ymgyrch a'r wefan eisoes yn fyw, a defnyddir y safbwyntiau a gesglir o wahanol sectorau a chymunedau i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer pobl Cymru, gan gynnwys gwahanol bobl yn y gwaith o gyd-ddrafftio a datblygu Gweledigaeth ar y cyd ar gyfer 2030 a 2050 a'r camau y mae angen i ni eu cymryd fel cymdeithas i gyrraedd yno. Pwysleisiodd Russell, er bod CNC yn hwyluso gyda chymorth Llywodraeth Cymru, mai gweledigaeth i Gymru fyddai hon, yn hytrach na gweledigaeth CNC.

Rhannwyd tudalen we www.naturani.cymru i ddangos yr amrywiaeth o gyfleoedd i bobl gymryd rhan, gan gynnwys arolwg, cyfleoedd creadigol, gan gynnwys beirdd preswyl, a chofrestru ar gyfer digwyddiadau gweminar a grwpiau ffocws. Mae'r ymateb hyd yma wedi bod yn galonogol.

Gofynnodd Russell i aelodau'r fforwm am eu cymorth i estyn allan at gynifer o bobl â phosibl. Er mwyn ei gwneud hi mor hawdd â phosibl, mae llawer o ffyrdd i bobl gymryd rhan, gan gynnwys gwaith allgymorth gan fod cyfyngiadau Covid yn cael eu codi. Mae llawer o adnoddau ar y Pecyn Cymorth i Randdeiliaid, gan gynnwys cyflwyniadau a chanllawiau trafod.

Mae CNC am gynnwys eraill wrth adolygu'r safbwyntiau a gasglwyd. Bydd hyn yn digwydd drwy amryw o ddigwyddiadau a grwpiau rhanddeiliaid; yna bydd y

canlyniadau'n cael eu dadansoddi. Mae dull panel dinasyddion yn cael ei ystyried i ddatblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer Cymru a bydd adroddiad i ddogfennu dysgu'r dull a ddefnyddir yn cael ei gynhyrchu hefyd. Roedd Russell o'r farn y bydd hwn yn adnodd defnyddiol ar gyfer llunio polisïau yn y dyfodol a dwyn CNC i gyfrif.

Awgrymwyd os oes gan aelodau gyfarfodydd neu weithgareddau grwpiau wedi'u trefnu ar gyfer yr wythnosau nesaf y gallent ystyried a oes cyfleoedd i rannu'r sgwrs hon a'i chynnwys fel rhan o'r dadansoddiad. Mae Richard Parks yn llysgennad sy'n gweithio gyda CNC sy'n awyddus i siarad â chymunedau, ac efallai y bydd cyfleoedd iddo siarad â grwpiau.

**Pwyntiau trafod (gan gynnwys sgwrs Teams):**

- Nodwyd y byddai'n ddiddorol gweld pa newid barn a fu ers y gwaith i ddatblygu Datganiadau Ardal, a hefyd effaith y pandemig

- Nodwyd bod beirdd preswyl yn ddull gwahanol a bod yr ymgyrch yn gweithio gyda Joe Roberts ynghylch rôl diwylliant a'r celfyddydau wrth lunio polisi. Mae hwn yn un o amryw o ddulliau sy'n cael eu defnyddio, gan nodi bod gan lawer o bobl agwedd emosiynol at natur a'r amgylchedd

- Ceisio cael cymaint o bobl â phosibl i gymryd rhan a grŵp mor amrywiol â phosibl. Edrych ar wybodaeth ansoddol yn ogystal â meintiol

- Gan gydnabod yr her a phwysigrwydd sicrhau bod grwpiau nas clywir yn aml yn cael eu clywed, esboniodd Russell ei fod yn gweithio ac yn profi dulliau gyda detholiad bach o grwpiau (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ac eraill sydd â chysylltiadau â grwpiau a chymunedau nas clywir yn aml), yn ogystal â cheisio targedu drwy ddylanwadwyr cyfryngau cymdeithasol sy'n fwy tebygol o estyn allan at grwpiau a rhwydweithiau. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda CGGC i rannu adnoddau trafod i ddarparu ffordd haws i bobl a grwpiau cymunedol ymgysylltu â'r ymarfer. Cydnabu fod llawer i'w ddysgu o hyd a bod ymdrechion parhaus i wneud cysylltiadau eraill, yn ogystal â'r ffaith bodd modd cael sgyrsiau wyneb yn wyneb eto

- Awgrym bod angen edrych ar sut mae'r ymgyrch yn ymgysylltu â busnes

- Bydd dull dau gam yr ymgyrch (casglu barn yn y lle cyntaf, yna didoli a dadansoddi canlyniadau) yn gyfle i sicrhau bod gwahanol sectorau'n cael cyfle i ymgysylltu

- Awgrymwyd bod pobl yn gwerthfawrogi natur yn fwy os gallant gael mynediad ato; dyma un o'r pethau sydd wedi codi mewn ymatebion cynnar, ond byddwn yn dal i gadw meddwl agored am beth fydd yr adborth

- Nodwyd nad yw hon yn adeg arbennig o dda o'r flwyddyn i ymgysylltu â'r gymuned ffermio a nododd fod aelodau hŷn yn llai tebygol o ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol

- Nodwyd ei bod yn bwysig peidio â gwneud rhagdybiaethau am grwpiau nas clywir yn aml, a'r gwahanol heriau sydd gan grwpiau

- Cydnabu Russell fod cyfyngiadau; mae gwahanol fecanweithiau'n cael eu defnyddio i liniaru hyn, a chroesawodd y gefnogaeth i rannu'r wybodaeth

- O ran sut i ddatblygu gweledigaeth sy'n seiliedig ar realiti, mae CNC yn dilyn Pecyn Cymorth y Llywodraeth, yn seiliedig ar ble rydym ar hyn o bryd a sut rydym yn cyrraedd pwynt penodol. Mae'n sgwrs rhwng CNC a grwpiau, ond rhwng grwpiau hefyd, a bydd angen iddi gynnwys gwerthoedd a materion a rennir, yn ogystal â nodi materion dadleuol neu afrealistig

- Mae CNC yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac yn edrych ar sut y gall Natur a Ni helpu i osod sylfeini ar gyfer polisi yn y dyfodol, gan gynnwys y Polisi Adnoddau Cenedlaethol a'r gwaith newid ymddygiad sero net sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mwya'n byd mae sefydliadau eraill yn cymryd rhan i ddatblygu gweledigaeth a rennir, mwya'n byd mae pobl yn debygol o ymrwymo iddi. Cynllun corfforaethol CNC y flwyddyn nesaf fydd ymateb CNC i'r Weledigaeth. Bydd yn bwysig nad yw'n ddogfen, ond yn hytrach yn broses i ddeall yr heriau. Fe'i gwelir fel ymarfer tymor hwy i barhau i ddysgu ar y cyd ynghylch yr argyfyngau natur a hinsawdd.

- Nid yw'n glir eto a fydd y Weledigaeth yn ddogfen (gallai fod yn ddelwedd neu'n dudalen we); mae'n broses ddynamig a rhyngweithiol sy'n cynnwys pobl ac mae'n debygol y bydd ymgynghoriad ochr yn ochr â hynny. Mater i Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill fydd sut y maent yn ei mabwysiadu.

- Gan nodi'r heriau i bobl mewn grwpiau nas clywir yn aml, mae ganddynt rwystrau lluosog i ymgysylltu ond mae her enfawr i bobl gredu y bydd yr hyn y byddant yn ei ddweud yn effeithio ar eu dyfodol. Mae gan sefydliadau Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru gyfraniad i'w wneud at bontio'r bwlch hwnnw.

- Nodwyd bod statws economaidd yn cael ei gydnabod fwyfwy fel rhwystr i lawer o gyfleoedd.

- Mae angen bod yn gliriach am fanteision i bobl yn eu bywydau gan fod pobl yn cael eu hysgogi gan bethau sy'n effeithio arnynt; byddai'r sgwrs yn digwydd ar lefel leol i gipio'r safbwyntiau hyn a byddai angen iddynt fod yn barhaus.

- Nodwyd bod Mosaic Outdoors yn sefydliad sy'n siarad dros gydraddoldeb yn yr awyr agored.
- Awgrymiadau y gallai 2050 ddigalonni rhai pobl; mae 2030 wedi'i gynnwys i helpu pobl i feddwl am ba gamau mwy brys sydd eu hangen.
- Bydd papur materion allweddol sy'n crynhoi canlyniad y cylch cyntaf o gyfranogiad yn cael ei gwblhau ym mis Gorffennaf, a bwriedir llunio adroddiad sy'n cofnodi'r broses a'r dysgu, ynghyd â'r weledigaeth ddrafft, tua mis Rhagfyr.

4.

## Prosiectau cydweithredol CNC/Experience Community:

Mae Craig Grimes, Experience Community, wedi bod yn gweithio gyda CNC dros y blynyddoedd diwethaf i wella mynediad cynhwysol.

Yn fwyaf diweddar, mae wedi bod yn gweithio ar brosiectau peilot Llwybr Arfordir Cymru sy'n edrych ar 5 rhan amrywiol o'r Llwybr. I ddechrau, bu'n datblygu meini prawf ar gyfer asesu addasrwydd, asesu'r 5 rhan beilot ar gyfer addasrwydd yn erbyn y meini prawf y cytunwyd arnynt, gan gynghori, yn unol â'r meini prawf, unrhyw newidiadau ar y llwybr neu oddi arno y byddai eu hangen er mwyn gwneud y rhannau peilot yn addas ac, yn olaf, datblygu meini prawf ar gyfer darparu gwybodaeth yn effeithiol a marchnata'r rhannau peilot hynny sy'n bodloni'r meini prawf adnabod.

Defnyddiwyd y ddogfen Trwy Bob Dull Rhesymol (BARM): Mynediad lleiaf rhwystrol i ddatblygu meini prawf asesu sy'n addas ar gyfer archwiliad 'cerdded' fel y gall gwybodaeth a gesglir lywio pa rannau o'r Llwybr y gellid eu gwella a'u hyrwyddo'n effeithiol ar gyfer pobl anabl.

Rhannodd Craig y system raddio a ddefnyddir gan Experience Community i raddio llwybrau (1-5), sy'n rhoi sylw i arwynebau, dringo a graddiant disgynnol ac uchder cyffredinol a rhwystrau posibl.

Esboniodd Craig sut y cymhwyswyd yr archwiliad hwn ar y safle ac ystyriaethau ynghylch a oedd gwelliannau e.e. i arwyneb, yn bosibl; pwysleisiodd Craig fod angen ystyried ffactorau tirwedd a chadwraeth ac nad yw pob defnyddiwr anabl am gael arwyneb llyfn a glân ond eu bod am gael her, fel unrhyw un arall. O ran graddiant, mae'r ystyriaethau'n cynnwys a ellir eu gwella neu eu hosgoi, p'un a oes dewisiadau eraill, ac opsiynau i gael llwybr haws neu fwy heriol. O ran rhwystrau, os gall grisiau neu gamfeydd gael eu hosgoi, eu dileu neu eu disodli; os na ellir gwneud hynny, bydd yn cyfyngu ar nifer y bobl sy'n gallu defnyddio'r llwybr hwnnw ac i bwy y gellir hyrwyddo'r llwybr. P'un a ellir tynnu gatiau, gridiau gwartheg neu a all y llwybr eu hosgoi.

Yn dilyn yr asesiad ar y safle, cynhelir asesiad mwy cymhleth sy'n ystyried a ellir gwella llwybrau yn seiliedig ar atodiad 1 BARM.

Yna rhannwyd astudiaethau achos o safleoedd yn y peilot i ddangos sut y cymhwyswyd y dull gweithredu, y materion a'r ystyriaethau a oedd wedi codi a'r mathau o argymhellion a wnaed.

Yn ogystal ag astudiaeth WCP, edrychwyd ar safleoedd eraill hefyd; roedd nifer o ffilmiau am lwybrau ar wahanol safleoedd CNC wedi'u gwneud cyn y cyfyngiadau symud ac maent ar gael ar wefan CNC. Wrth edrych ar wahanol ffyrdd o hyrwyddo safleoedd, roeddent wedi canfod bod ffilmiau wyneb yn wyneb â chamera wedi bod yn effeithiol o ran darparu gwybodaeth fanwl am yr hyn y gall ymwelwyr ei ddisgwyl. Mae 6 llwybr arall wedi bod yn destun archwiliad a bydd y canlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i CNC. Nododd er bod pobl yn cael eu hannog i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, efallai na fydd yn cyrraedd safleoedd a thynnodd sylw at y ffaith bod rhwystrau i ddefnyddwyr anabl gael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a chael offer symudedd ar y drafnidiaeth honno, felly mae darpariaeth parcio ceir yn bwysig ac yn fater i fynd i'r afael ag ef ar gyfer rhai safleoedd. Roedd y camau nesaf yn cynnwys trafodaeth am newidiadau posibl ar y safle a newidiadau mewn gwybodaeth cyn ymweliad megis darparu gwybodaeth Phototrails a ffilmiau byr am lwybrau, yn amodol ar gyllidebau yn y dyfodol.

**Pwyntiau trafod (gan gynnwys sgwrs Teams):**

- Trafodaeth am y ddarpariaeth o Gyfleusterau Lleoedd Newid i bobl ag anghenion cymhleth lluosog sydd angen cyfleusterau pan fyddant allan. Mae diffyg cyfleusterau o'r fath yn rhwystr mawr i rai pobl fynd allan, ac mae llawer y gellid ei wneud mewn safleoedd blaenllaw. Mae Access For All UK – improving accessibility improving lives yn gweithio i wella'r ddarpariaeth hon.

- Wrth ystyried dadansoddi cost a budd a blaenoriaethu llwybrau i'w gwella, nododd Craig eu bod, yn y prosiect presennol, yn ceisio edrych ar ba gyfleusterau y gellid eu gosod i wneud safleoedd hyd yn oed yn fwy addas i fwy o bobl, gan geisio edrych ar faint y bydd yn ei gostio, hyd y llwybr a faint o bobl fydd yn cael mynediad iddo, ond mae hon yn broses gymhleth. Y gobaith gyda'r cynlluniau peilot yw y bydd proses archwilio symlach i eraill ei defnyddio fel y bydd sefydliadau eraill yn gallu creu gwell darlun o'r llwybrau addas.

- Ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol, nid yw'n fater o ddewis y llwybr hawsaf, cyflymaf neu rataf i'w wella'n unig, ond dylid cael gwasgariad daearyddol, nid yn unig mewn Parciau Cenedlaethol ond mynediad mewn mannau cywir, mae hefyd yn ymwneud ag adnoddau dynol a darparu offer i bobl nad oes ganddynt yr offer hynny eu hunain. Mae'n broses gymhleth a pharhaus i fynd i'r afael â hi mewn pob math o wahanol ffyrdd.

- Trafodaeth (mewn sgwrs Teams) am y dull sydd ei angen mewn perthynas â rhwystrau a phwysigrwydd cysylltu â thirfeddianwyr wrth ystyried a oes angen seilwaith o'r fath o hyd mewn safle penodol neu a ellir ei ddileu neu ei ddisodli gan strwythurau mwy hygyrch lle'n briodol.

- Gweithgareddau dŵr; derbyniodd Canŵ Cymru grant gan Lywodraeth Cymru i wella pontynau ar gyfer defnyddwyr anabl, mae hyn yn rhywbeth mae Experience Community wedi dechrau ei ystyried ac rydym yn gweithio arno gyda Phlas y Brenin, a byddem yn croesawu trafodaeth bellach.

- Cynhyrchodd BHS ac Experience Community fideo gwych i helpu pobl i fwynhau llwybrau aml-ddefnyddiwr, gan roi gwybodaeth am sut i basio ei gilydd ar lwybrau https://m.youtube.com/watch?v=wmtdtkZOngM

5.

## Cyfraniadau Ysgrifenedig

Roedd cyfraniadau ysgrifenedig wedi'u dosbarthu ac atgoffwyd yr aelodau eu bod yn rhoi cyfle da i rannu gwaith eu sefydliad ag aelodau eraill. Mae'r slot hwn yn galluogi cyfranwyr i dynnu sylw at unrhyw bwyntiau ac i ateb cwestiynau ar eu heitemau. Gellid cyflwyno unrhyw ddiweddariadau pellach i Carys erbyn 18 Mawrth i'w cynnwys yn y fersiwn derfynol a gyhoeddir.

**Trafodaeth**

- Nododd Sarah Smith, Llywodraeth Cymru, fod adroddiad y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad wedi'i gyflwyno i'r Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd ym mis Mai 2021. Mae rhywfaint o waith pellach wedi'i wneud ar hyn, gan gynnwys cyngor cyfreithiol cychwynnol ar yr argymhellion a wnaed. Mae angen gwneud rhagor o waith o hyd i ddeall cost, adnoddau a goblygiadau eraill y gwahanol opsiynau yn well. Yn anffodus, mae pwysau o ran adnoddau staff wedi arafu cynnydd yn y meysydd hyn. Disgwylir i fyfyriwr PhD ar leoliad ddechrau ym mis Ebrill a bydd yn ymgymryd â phrosiect sy'n canolbwyntio ar Ddiwygio ARAG 3A (Cyfathrebu Hawliau Mynediad), yn enwedig o ran mapio digidol.
- Cadarnhaodd Jont Bulbeck y byddai cyngor Diwygio Mynediad CNC sy'n cael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru eleni yn cael ei rannu â rhanddeiliaid ond na fyddai'n agored i dderbyn sylwadau pellach.

- Nododd Mark Weston, BHS, y byddai ystadegau damweiniau wedi'u diweddaru ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf ar gael yn fuan ac yn cael eu dosbarthu. Croesawodd BHS y diweddariadau i Reolau’r Ffordd Fawr. Byddai cwestiwn a godwyd ynghylch a oedd llwybrau caniataol yn y diweddariad gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gael i farchogion yn cael ei anfon at Jonathan Hughes, a oedd wedi anfon ymddiheuriadau.

6.

## Adolygiad o Lwybr Arfordir Cymru

Dywedodd Huw Irranca-Davies AS fod Llywodraeth Cymru yn sefydlu grwpiau her bach; mae un grŵp o'r fath wedi'i sefydlu i wneud darn o waith amser cyfyngedig i ystyried Llwybr Arfordir Cymru wrth i ni nesáu at 5 Mai 2022 a fydd yn nodi deng mlynedd ers ei lansio fel y llwybr arfordir cyntaf yn y byd i gwmpasu gwlad gyfan.

Mae'r Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd wedi gofyn i Huw Irranca-Davies AS arwain yr adolygiad hwn, gan edrych yn ôl ar lwyddiannau a gwersi'r deng mlynedd diwethaf ac edrych ymlaen at y potensial ar gyfer y deng mlynedd nesaf. Bydd yn adrodd yn ôl i'r Gweinidog erbyn diwedd mis Ebrill.

Mae grŵp bach wedi dod ynghyd o'r byd academaidd a'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i greu gweledigaeth ar gyfer dyfodol Llwybr Arfordir Cymru a datblygu argymhellion ymarferol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y dull strategol yn y dyfodol. Ni fyddent yn ailddyfeisio polisi Llywodraeth Cymru ond maent yn bwriadu cyflwyno awgrym o ble y gallwn fynd o hyn ymlaen.

Rhannodd Huw Irranca-Davies AS rai o'r heriau a'r cwestiynau sydd wedi codi fel rhan o'r adolygiad. Mae cwestiwn mawr o ran yr hyn sydd angen digwydd i wireddu potensial llawn y Llwybr 10 mlynedd ers ei lansio. Mae rhai sgyrsiau wedi myfyrio ar beth oedd y nodau pan sefydlwyd y Llwybr gyntaf a beth sydd wedi'i gyflawni a beth sydd heb ei gyflawni. A oedd ystyriaethau eraill yn ymwneud â lles, cefnogaeth a chyfranogiad y gymuned ehangach a natur, yn enwedig yr argyfyngau natur a hinsawdd. Nododd ei bod yn ddefnyddiol yng Nghymru bod gennym ddeddfwriaeth ac egwyddorion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
Ystyriaethau ynghylch perthynas Llwybr Arfordir Cymru â'r rhwydwaith ehangach o Lwybrau Cenedlaethol, llwybrau cylchol a'r rhwydwaith hawliau tramwy. Mae cwestiynau sylfaenol hefyd ynghylch partneriaethau cynaliadwy o ran cyllid.
Cwestiynau ynghylch Teithio Llesol o fewn parth Llwybr Arfordir Cymru sy'n cysylltu cymunedau, i sbarduno mentrau mewn perthynas â thwristiaeth a defnydd lleol ac a oes pethau y gellir eu gwneud o ran newid dulliau teithio.
Mae cwestiynau'n ymwneud ag addysg a'r cwricwlwm i annog defnydd o Lwybr Arfordir Cymru a dysgu yn yr awyr agored a dathlu'r rhwydwaith llwybrau ehangach.
A ellir gwneud mwy gyda phlatfformau digidol i roi gwybod i bobl am rannau o'r llwybr. A oes platfformau digidol a all wella profiad ymwelwyr a thwristiaeth, beth yw'r arfer gorau ac a ellir gwneud mwy.
Hefyd, o ran y strwythurau partneriaeth a rheoli i ddod â phobl at ei gilydd i reoli a chynnal, os cânt eu hail-ddychmygu o ran iechyd a lles, addysg a'r newid yn yr hinsawdd ac a oes angen strwythurau newydd arnom. Mae cwestiynau hefyd ynghylch a oes mwy i'w wneud â data a thystiolaeth a hefyd grwpiau nad ydynt yn defnyddio'r llwybr ac edrych ar y rhwystrau i ddefnydd.

Y bwriad yw cyflwyno cynigion i'r llywodraeth a fydd yn seiliedig ar adborth pobl. Roedd arolwg byr wedi'i rannu drwy e-bost ac anogwyd aelodau Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru i ymateb i hyn cyn gynted â phosibl, ac anogodd bobl i gyflwyno syniadau creadigol.

**Pwyntiau trafod:**

- Sut rydym yn addasu Llwybr Arfordir Cymru, gyda'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y defnydd o'r Llwybr a chymunedau ar rannau isel yr arfordir.

- Cyfle cyffrous i gyfrannu. Cymryd rhan mewn cyfleoedd cwricwlwm go iawn a rhithwir, ymchwil a chyfleoedd ar gyfer gwyddoniaeth dinasyddion.

- Hoffem weld mwy o bobl yn gallu defnyddio'r llwybr, darnau addas sy'n hygyrch i farchogion a datblygu llwybrau cylchol ar gyfer defnyddwyr eraill.

- Rhannwyd un enghraifft o waith blaenorol yn edrych ar syniadau arloesol, sef GeoVation tackles a coastal challenge - Geovation

- Hoffai'r grŵp gyflwyno syniadau beiddgar i'r llywodraeth, a bydd yn codi cwestiynau am adnoddau ar gyfer blaenoriaethau.

- Mae angen i Lwybr Arfordir Cymru fod ar y llwybr gorau posibl e.e. nid ar hyd ffyrdd.

- Awgrym y dylai Llwybr Arfordir Cymru fod yn Llwybr Cenedlaethol sy'n cysylltu â Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a llwybrau pellter hir eraill.

- Bydd rhybudd o gyfle i ymuno â chynhadledd rithwir yn cael ei rannu; yn ystod hyn, bydd mwy o fanylion am rai o'r meysydd syniadau'n cael eu rhannu i gael adborth a nodi pethau a allai fod wedi'u methu.

- Nid yw'r grŵp sy'n edrych ar yr adolygiad yn grŵp cynrychiadol ond mae'n cynnwys aelodaeth o'r byd academaidd (gwyddor ymddygiad a ffocws cymuned gymdeithasol), cefndir digidol, CNC, persbectif mynediad, rhanddeiliaid presennol o'r parc cenedlaethol a hybu twristiaeth ac iechyd y cyhoedd.

- Gan nodi bod rhai llwybrau troed yn croesi tir amaethyddol, parch at weithle pobl, mae angen addysgu pobl am fynd i'r awyr agored.

- Cais i'r arolwg gael ei ddosbarthu i Fforymau Mynediad Lleol.

## Edrych ymlaen a dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf yw 5 Gorffennaf a 22 Tachwedd.

**7.** Y gobaith yw y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb, a bydd Carys yn e-bostio rhagor o fanylion am hyn ac a fydd modd iddo fod yn gyfarfod hybrid (i ganiatáu i rai pobl ymuno ar-lein).

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau at gyfarfod diddorol.